**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Adroddiad AHGTAEF – Ymchwiliadau Trosedd: ymchwiliad i ba mor effeithiol mae'r heddlu'n ymchwilio i droseddau**

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn a byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran eu gweithredu. Diolchaf i AHGTAEF am gyflawni'r gwaith pwysig hwn ac am dynnu sylw at y gwelliannau hanfodol a awgrymwyd.

Rwyf wedi nodi fy marn a'r sicrwydd rwyf wedi derbyn wrth y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r argymhellion ar gyfer Heddluoedd o fewn yr adroddiad isod. Disgwyliaf ganlyniadau'r argymhellion cenedlaethol ochr yn ochr â'r Heddlu.

**Argymhelliad 3: Erbyn 31 Rhagfyr 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod gan eu Heddlu broses gyflawn effeithiol ac effeithlon ar gyfer ymdrin ag adroddiadau ar-lein am droseddau. Dylai'r broses ddileu'r holl oedi diangen o ran cofnodi, asesu a phennu adroddiadau am droseddau, a sicrhau bod yr Heddlu'n cydymffurfio'n gyson â'i ofynion o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd.**

Rwyf wedi cael gwybod bod yr Heddlu'n wrthi'n cynnal adolygiad model gweithredu a bod un ffrwd gwaith yn ymwneud â chofnodi troseddau yn unig. Mae'r ffrwd gwaith hwn yn ceisio canoli'r swyddogaeth cofnodi troseddau drwy greu Tîm Cofnodi a Chwblhau Troseddau. Mae'r prosiect yn edrych ar brosesau gwell ar gyfer ymdrin â chyflwyniadau Hafan Ar-lein Unigol sy'n ymwneud â throseddau, gan ystyried dewisiadau ar gyfer osgoi Ystafell Reoli'r Heddlu lle mae paramedrau penodol wedi'u bodloni fel bod y drosedd yn gallu cael ei chofnodi'n gynt. Yr wyf wedi derbyn sicrwydd y bydd y prosiect hefyd yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Gyswllt yr Heddlu er mwyn sicrhau bod troseddau a nodir ar eu desg ddigidol hefyd yn cael eu cofnodi'n briodol cyn gynted â phosibl.

Bydd y Tîm Cofnodi a Chwblhau Troseddau yn gyfrifol am gwblhau Cytundebau Dioddefwyr gyda dioddefwyr sy'n adrodd am droseddau cyn eu pennu ar gyfer ymchwiliad. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer rhoi'r Tîm Cofnodi a Chwblhau Troseddau ar waith yw Ionawr 2026.

**Argymhelliad 4: Erbyn 31 Rhagfyr 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod y broses gyflawn ar gyfer derbyn, asesu a phennu adroddiadau am droseddau yn eu Heddlu'n lleihau oedi yn y broses ymchwilio a'r amser cyn y mae ymchwilwyr yn cysylltu â dioddefwyr.**

Pan mae dioddefydd yn cysylltu â chanolfan gyswllt Heddlu Dyfed-Powys i adrodd am drosedd, lle nad oes angen anfon swyddogion ar unwaith, bydd y galwr yn cael ei drosglwyddo i aelod o'r Tîm Cofnodi a Chwblhau Troseddau. Bydd hyn yn sicrhau y gall y drosedd gael ei chofnodi, bod cytundeb dioddefydd yn cael ei gytuno, a bod asesiad natur ddatrysadwy'n cael ei gynnal tra bod y galwr ar y ffôn. Pan wneir penderfyniad i beidio ag ymchwilio, rwyf wedi cael gwybod bod yr Heddlu'n bwriadu diweddaru'r galwr bryd hynny er mwyn lleihau oedi. Yr wyf wedi fy sicrhau y bydd troseddau y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt yn cael eu pennu yn seiliedig ar fatrics pennu troseddau newydd ac y bydd y swyddog ymchwilio'n cysylltu â'r dioddefydd.

Mae gan yr adolygiad model gweithredu ffrwd gwaith ymchwiliadau hefyd sy'n ceisio gwella safon ac amseroldeb ymchwiliadau.

**Argymhelliad 5: Erbyn 31 Rhagfyr 2025, dylai prif gwnstabliaid ddylunio a gweithredu polisi sy'n arwain at eu Heddlu'n pennu troseddau i ymchwilwyr sy'n gymesur â lefel hyfforddiant, achrediad a phrofiad pob ymchwilydd.**

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyhoeddi eu Safonau Lleiaf ar gyfer ymchwilio ar dudalen we'r Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau ar fewnrwyd yr Heddlu ar gyfer troseddau niferus perygl is.

Mae Matrics Pennu Troseddau wedi'i gytuno gan arweinwyr uwch o fewn yr Heddlu a bydd yn cael ei weithredu ochr yn ochr â'r model ymchwilio newydd yn ystod yr hydref yn 2025.

Mae matrics pennu troseddau rhywiol eisoes yn cael ei ddefnyddio gan yr Heddlu ac mae wedi bwrw gwreiddiau o fewn y canllawiau cofnodi a phennu troseddau.

Yr wyf wedi fy sicrhau bod y matricsau hyn yn rhoi eglurder o ran pa swyddogion neu adrannau ddylai gael blaenoriaeth dros ba droseddau. Mae'r matricsau hyn wedi'u datblygu yn unol â chanllawiau'r Coleg Plismona.

**Argymhelliad 6: Erbyn 30 Medi 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod gan eu Heddlu bolisi clir mewn perthynas â chynlluniau ymchwilio. Dylent sicrhau bod eu Heddlu'n rhoi gwybod i swyddogion a staff am y polisi hwn. Dylai'r polisi hwn gwmpasu'r canlynol o leiaf:**

1. **pryd i gychwyn cynllun ymchwilio.**
2. **pwy sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r cynllun ymchwilio.**
3. **beth i ystyried cynnwys mewn cynllun ymchwilio.**
4. **sut y dylai goruchwylwyr adolygu a chymeradwyo cynlluniau ymchwilio.**

5. **sut bydd yr Heddlu'n monitro cynlluniau ymchwilio i wirio eu safon, a sut i sicrhau bod ymchwilwyr a goruchwylwyr wedi'u dilyn.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod yr holl bwyntiau hyn wedi'u cynnwys yng Ngweithdrefn Cofnodi ac Ymchwilio i Droseddau a Digwyddiadau'r Heddlu. Fel rhan o adolygiad parhaus yr Heddlu i 'Ymchwiliadau', mae banc o gymhorthion cof wedi'u darparu i gynorthwyo swyddogion â gweithredoedd awr euraidd a llwybrau ymholi rhesymol.

Mesurir cydymffurfiaeth swyddogion a goruchwylwyr gyda phwyntiau 1-5 uchod drwy ddangosfyrddau perfformiad PowerBI. Mae dangosfyrddau'n destun craffu mewn cyfarfodydd Perfformiad Sirol a chefnogir hyn gan raglen archwilio a gyflawnir gan yr Uned Gwella Gwasanaethau. Byddaf hefyd yn sicrhau bod fy swyddfa'n monitro hyn wrth fynd ymlaen er mwyn sicrhau y bodlonir y terfyn amser uchod.

Mae gan yr Uned Gwella Gwasanaethau raglen archwilio fisol ar waith ar draws pob digwyddiad trosedd sy'n seiliedig ar ddioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys Twyll; byrgleriaeth; ymosod; troseddau rhywiol; ysbeiliad; lladrad ac ati.

Mae pob trosedd Trais ac achos cam-drin domestig sydd wedi'u cau gyda chanlyniad 16 hefyd yn cael eu harchwilio bob mis. Mae themâu archwilio hefyd yn cael eu hadrodd i gyfarfod misol y DBG i'w monitro.

**Argymhelliad 7: Erbyn 30 Mehefin 2025, dylai prif gwnstabliaid gynnwys cyfarwyddyd yn eu polisïau ymchwilio sy'n dweud y dylai ymchwilwyr ei chwilio yn erbyn Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu ac unrhyw gronfeydd data perthnasol eraill pan mae darlun yn bodoli cyn i'w Heddlu gau ymchwiliad.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod gan Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu brosesau mewn grym i arwain ar Gydnabyddiaeth Wyneb Ôl-weithredol fel rhan o bortffolio ehangach Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu. Mae Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu'n cynnal chwiliadau ar ran swyddogion a staff. Proses ymatebol yw hon ar hyn o bryd sy'n golygu bod ymchwilwyr yn gwneud cais am y gwasanaeth hwn drwy anfon e-bost yn uniongyrchol at Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu. Mae'r natur ymatebol hwn yn golygu bod Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu'n dibynnu ar ymwybyddiaeth ymchwilwyr o allu a phennu tasgau.

Rwyf wedi derbyn diweddariad bod y canlynol eisoes mewn grym er mwyn uchafu defnydd a gwerth Cydnabyddiaeth Wyneb Ôl-weithredol:

1. **Gwybodaeth** – Mae gwybodaeth ar draws yr Heddlu'n cael ei rhannu drwy fewnrwyd yr Heddlu â'r nod o wella perfformiad. Swyddogion a staff i gyflwyno delweddau ar gyfer Cydnabyddiaeth Wyneb Ôl-weithredol.

2. **Microsafle Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu** – Rhennir gwybodaeth, dealltwriaeth, sgìl, gallu a chyfleoedd datblygu i staff Heddlu Dyfed-Powys â'r nod o ddatblygu gwybodaeth ymarferwyr.

Darparodd yr Heddlu'r esblygiad awgrymedig canlynol o ddatrysiad rhagweithiol:

Gweithredu proses Niche ar draws yr Heddlu a fyddai'n galluogi swyddogion/staff i:

Atodi jpeg. (o deledu cylch cyfyng/delweddaeth ac ati) ar Niche;

- Tynnu sylw at y ffaith bod gan drosedd/digwyddiad nad yw'n drosedd ddrwgdybyn sydd heb ei adnabod (drwy deledu cylch cyfyng/delwedd ac ati), y gellir ei chwilio'n effeithiol gan Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu.

Os bydd y broses uchod yn cael ei rhoi ar waith, bydd yn galluogi aelod o staff Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu i gynnal chwiliad Swmp rheolaidd (50 o ddelweddau heb eu hadnabod ar y tro), gyda'r nod o nodi p'un a oes unrhyw un o'r drwgdybiedigion erioed wedi dod i gysylltiad â dalfa heddlu yn y DU. Byddai gweithredu'r uchod yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r argymhelliad uchod. Byddaf yn monitro cynnydd y datrysiad awgrymedig â diddordeb wrth i'r Heddlu barhau i ddeall eu hanghenion a'u galluoedd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 9: Erbyn 31 Rhagfyr 2025, dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod yr adolygiad goruchwyliol cyntaf o ymchwiliad trosedd yn digwydd ddigon cynnar er mwyn i'r goruchwylydd allu:**

1. **adolygu unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd, gan gynnwys y rhai ar gyfer asesu a rheoli risg.**
2. **sicrhau bod yr ymchwilydd wedi rhoi'r cymorth priodol mewn grym ar gyfer dioddefwyr ac yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd.**
3. **gosod neu gymeradwyo cynllun ymchwilio.**
4. **adolygu llwyth achos yr ymchwilydd.**
5. **trefnu dyddiad ar gyfer adolygiad pellach.**

Rwyf wedi cael gwybod bod disgwyliadau mewn perthynas â phwyntiau 1 - 5 uchod wedi'u cynnwys yng Ngweithdrefn Cofnodi Troseddau a Digwyddiadau'r Heddlu, sy'n amlinellu Polisi'r Heddlu mewn perthynas ag amserlenni'r Swyddog Cyfrifol a'r Goruchwylydd ar gyfer diweddariadau cychwynnol (24 awr ar gyfer Swyddog Cyfrifol a 48 awr ar gyfer Goruchwylydd).

Mewn ymateb i ail bwynt yr argymhelliad hwn, mae templed Asesiad o Anghenion Dioddefydd newydd wedi'i ychwanegu i NICHE sy'n cynnwys cwestiynau mandedig mewn perthynas ag anghenion amrywiol dioddefydd. Mae'r Heddlu'n disgwyl arweiniad ynghylch y safonau lleiaf gan y Coleg

Plismona a fydd hefyd yn cefnogi gweithredu'r gofynion hyn yn llwyddiannus. Ychwanegwyd yr Asesiad o Anghenion Dioddefydd newydd ym mis Ionawr 2025 a rhannwyd canllawiau ymysg swyddogion a staff drwy fewnrwyd yr Heddlu. Bydd Pronto yn gorchymyn bod yr un cwestiynau a gynhwysir yn y templed NICHE adeg cofnodi'r drosedd ac yn llenwi'r templed yn NICHE yn awtomatig. Bydd y templed NICHE newydd hwn yn dangos yn glir pa un ai a oes gan ddioddefydd hawl i wasanaeth safonol neu uwch.

Mewn ymateb i Bwynt 4, rwyf wedi cael fy hysbysu bod argymhelliad o gyfran Ymchwiliadau Adolygiad yr Heddlu mewn perthynas â 'Rheol Terfyn Troseddau' fesul swyddog wedi'i wneud. Bydd hyn hefyd yn cael ei weithredu gan yr Heddlu yn ystod yr hydref yn 2025. Yn y cyfamser, disgwylir i bob goruchwylydd gael cyfarfodydd llwyth gwaith rheolaidd gyda swyddogion.

Mewn ymateb i Bwynt 5, bydd adolygiadau Swyddogion Cyfrifol a Goruchwylwyr yn cael eu cynnal bob 28 diwrnod o leiaf wedi hynny.

**Argymhelliad 10: Erbyn 31 Mawrth 2026, dylai prif gwnstabliaid:**

1. **sicrhau bod unrhyw aelod staff sydd â rhan mewn cefnogi'r broses ymchwilio'n cwblhau rhaglen ddysgu 'Cyflwyniad i Ymchwilio' y Coleg Plismona.**
2. **bodloni eu hunain bod cynnwys hyfforddiant ymchwilio parhaus eu Heddlu wedi'i lunio i ddatblygu eu sgiliau ymchwilio a'u perfformiad, a gwella canlyniadau ar gyfer dioddefwyr, a bod eu Heddlu'n rhoi amser wedi'i warchod i ymatebwyr gwblhau'r hyfforddiant hwn.**
3. **sicrhau bod eu Heddlu'n canolbwyntio'n ddigonol ar baratoi ffeiliau achos wrth ddarparu hyfforddiant rhaglen proffesiynoli ymchwiliadau lefel 1 wrth ystyried systemau rheoli achosion a gweithdrefnau lleol.**
4. **sicrhau bod yr Heddlu'n rhoi cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i swyddogion a staff o ran paratoi ffeiliau achos.**
5. **sicrhau bod eu Heddlu'n cadw cofnodion cywir o swyddogion a staff achrededig rhaglen proffesiynoli ymchwiliadau lefel 2, a bod y swyddogion ac aelodau staff hynny'n cwblhau datblygiad proffesiynol parhaus blynyddol i gynnal eu hachrediad, a ddylai hefyd gael ei gofnodi'n gywir gan Heddluoedd.**
6. **adolygu'r hyfforddiant ymchwilio mae eu Heddlu'n rhoi i oruchwylwyr, gan sicrhau ei fod yn eu paratoi i oruchwylio a chyfarwyddo ymchwiliadau trosedd yn effeithiol.**

Rwyf wedi darparu ymatebion unigol ar gyfer pob un o'r pwyntiau uchod er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hateb yn unigol. Gweler yr isod:

1. Mae'r Heddlu wedi fy niweddaru bod hyfforddiant cychwynnol ar gyfer swyddogion a staff yn cyd-fynd â chwricwlwm wedi'i optimeiddio'r Coleg Plismona. Defnyddir canlyniadau'r rhaglen ddysgu 'Cyflwyniad i Ymchwilio' yn ystod dysgu ymarferol hyfforddiant cychwynnol. Defnyddir y rhaglen ddysgu 'Cyflwyniad i Ymchwilio' ar gyfer hyfforddiant gloywi aelodau staff.
2. Rwyf wedi cael gwybod bod cwrs wedi'i deilwra ar gyfer ymatebwyr cyntaf yn cael ei ystyried gan yr Heddlu ar hyn o bryd. Gan gydnabod y byddai hyn yn eithaf trwm o ran adnoddau o ystyried y gynulleidfa darged, mae ymagwedd amgen o orchymyn ymlyniadau swyddogion sy'n fyfyrwyr i adrannau arbenigol er mwyn gwella dysgu'n cael ei ystyried.
3. Mae adran Dysgu a Datblygu'r Heddlu'n gweithio'n agos â'r Uned Brosesu Ganolog i fanteisio ar hyfforddiant Rhaglen Proffesiynoli Ymchwilio 1. Mae hyn yn cynnwys paratoi ffeiliau achos ac mae'n gymysgedd o hyfforddiant wyneb yn wyneb gydag arbenigwyr pwnc a dysgu ymarferol gyda'r uned ymchwilio leol a'r Uned Brosesu Ganolog.
4. Rwyf wedi fy sicrhau bod diwrnodau hyfforddi penodol wedi'u cynnwys yn y patrwm rota ymateb, a ddefnyddir fel cyfleoedd datblygiad proffesiynol i wella sgiliau staff. Mae'r adran Dysgu a Datblygu'n ymgysylltu â'r Uned Brosesu Ganolog mewn perthynas â hyfforddiant ffeiliau achos.
5. Mae'r Heddlu wrthi'n archwilio i ddiweddaru Trent yn awtomataidd o'r system Proffil Datblygu ac Asesu sy'n cofnodi achrediad sgìl PIP 2.
6. Rwyf wedi cael gwybod bod y rhaglen Rheolwyr a Goruchwylwyr Ymchwiliadau'n cael ei chyflwyno i bob Ditectif Ringyll a Ditectif Arolygydd yn Heddlu Dyfed-Powys. Yn ogystal, mae Rhingylliaid lifrog newydd yn derbyn cwrs bythefnos o hyd, sy'n cynnwys goruchwylio ymchwiliadau. Rwyf wedi fy sicrhau bod pob Rhingyll yn ymgymryd â rhaglen Arweinyddiaeth Llinell Gyntaf y Coleg Plismona.

**Argymhelliad 11: Erbyn 30 Medi 2025, dylai prif gwnstabliaid sefydlu a gweithredu proses ar gyfer monitro cyfran y troseddau a gofnodir mae eu Heddlu'n pennu ar gyfer ymchwilio. Dylai hyn gynnwys proses ar gyfer sicrhau bod penderfyniad i beidio â phennu trosedd ar gyfer ymchwiliad yn briodol.**

Yn ddiweddar, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyflwyno'r erfyn e-Bit i gynorthwyo â'r asesiad datrysadwyedd o sawl math o drosedd. Ar hyn o bryd, mae e-Bit ond yn cael ei weithredu i droseddau trefn gyhoeddus ac ymosodiad cyffredin ac mae'n gwbl archwiliadwy. Cedwir cofnod o bob asesiad ar gyfer monitro perfformiad. Dros amser, ehangir e-Bit i gynnwys

mwy o fathau o droseddau, ond bydd yn parhau i ddal gwybodaeth am bob canlyniad.

Rwyf wedi cael gwybod bod yr Adolygiad o Fodel Gweithredu'r Heddlu'n ceisio newid y ffordd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn cofnodi troseddau drwy gyflwyno swyddogaeth cofnodi troseddau ganolog sydd hefyd yn cynnal asesiad cynnar o ddatrysadwyedd. Bwriedir cyflwyno'r tîm hwn ym mis Ionawr 2026 a bydd penderfyniadau i bennu neu beidio â phennu trosedd ar gyfer ymchwiliad yn cael ei gofnodi o fewn prosesau newydd.

Mae'r holl argymhellion uchod wedi'u pennu i arweinwyr yr Heddlu gan yr Arolygydd Richard Janas a chynhelir goruchwyliaeth drwy fyrddau llywodraethu a arweinir gan Brif Swyddog.

Rwy'n ddiolchgar bod yr argymhellion hyn wedi'u cyhoeddi. Bydd fy nhîm a minnau'n gweithio'n agos â chynrychiolwyr o Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch AHGTAEF er mwyn gwella'r gwasanaeth plismona ar gyfer preswylwyr ardal Dyfed-Powys.